**Cofnodion Bwrdd TrC**

**22 Medi 2022**

09:30 – 17:00

Lleoliad – Llys Cadwyn ac ar-lein

---

**Yn bresennol**

Scott Waddington (Cadeirydd); Heather Clash, Nicola Kemmery, Sarah Howells, Alison Noon-Jones, a James Price.

Hefyd yn bresennol: Jeremy Morgan; Leyton Powell (eitem 2); a Natalie Feely (eitemau 1 i 3).

**Rhan A – Cyfarfod o'r Bwrdd Llawn**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Ymddiheurodd Vernon Everitt am sesiwn y bore.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb yno.

**1c. Datganiadau Diddordeb**

Gan ei bod yn cael ei chyflogi yn y diwydiant band eang, datganodd Sarah Howells fudd posibl yn eitem Ffeibr Llinellau Craidd y Cymoedd.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC ar 21 Gorffennaf 2022 yn gofnod gwir a chywir. Nodwyd y log camau gweithredu.

**1e. Sylw i Ddiogelwch**

Mae angen cymryd gofal o ran y risg y bydd pobl yn rhy hunanfodlon o fod ar y safle am gyhyd. Dyma pan fydd digwyddiadau'n fwy tebygol o ddigwydd.

**1f. Sylw i Gwsmeriaid**

Atgoffwyd y Bwrdd o'r angen i sicrhau bod ymatebion awtomatig i ymholiadau a chwynion cwsmeriaid yn rhoi rhywfaint o fudd i'r cwsmer.

Myfyriodd y Bwrdd ar rai profiadau diweddar gyda gwasanaethau newid trenau a chymryd gofal o ran defnyddio negeseuon wrth gyfathrebu â chwsmeriaid.

**2. Perfformiad diogelwch**

Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am lansio ap Railway Guardian; cefnogaeth i Pullman Rail wrth i Reolwr Diogelwch gael ei recriwtio; a fforwm diogelwch yn cael ei gynnal yn nepo Trefforest gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, AIW a'u partneriaid cyflenwi.

Rhoddwyd gwybod am saith damwain/digwyddiad yn ystod y cyfnod diwethaf, gydag un yn arwain at RIDDOR. Mae ymchwiliadau pellach ar y gweill. Roedd 11 o alwadau agos yn ystod y cyfnod, yn bennaf o ran arlwyo. Adroddwyd am yr offer diffygiol ac fe'u tynnwyd allan o gylchdro ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Mae'r tîm yn cynllunio ar gyfer ymdrech ar y cyd o ran galwadau agos yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod cyllyll wedi cael eu canfod ar drên uned Cl175 yng Nghaergybi. Cafodd hyn ei godi gyda'r tîm diogelwch a chadernid. Mae staff wedi cael eu cynghori i roi gwybod i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig am unrhyw weithgareddau amheus.

Adroddodd y gweithrediadau ar berfformiad rhesymol o'i gymharu â thargedau DPA. Roedd y sgôr mynegai marwolaethau cyfunedig wedi'i bwysoli (FWI) (0.07) yn is na'r sgôr a ragwelwyd (0.17). Mae FWI y gweithlu yn dal yn gyson yn ystod y cyfnod hwn (0.03) gyda'r cyfartaledd blynyddol sy'n symud (0.05) yn dal yn is na'r ffigur a ragwelwyd (0.07). Gwelwyd cynnydd yn nifer y digwyddiadau gweithlu gyda 22 wedi'u hadrodd yn ystod y cyfnod diwethaf (yn uwch na'r ffigurau disgwyliedig).

Roedd chwe achos o Basio Signal yn Beryglus (SPaD) yn ystod y cyfnod. Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y camau a gymerwyd yn sgil hynny mewn ymateb, gan gynnwys archwiliad manwl, rhybuddion i bob depo, gyrwyr wedi eu tynnu o ddyletswyddau arferol adeg SPaD nes ceir cynlluniau gweithredu cywirol, a'r RSSB yn meincnodi Prosesau Rheoli SPaD yn erbyn arferion da.

Cafodd y Bwrdd hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am sawl mân ddigwyddiad ar draws seilwaith, Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd a Pullman Rail.

Gadawodd Leyton Powell y cyfarfod.

**3. Diweddariad strategol**

**3a. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Hysbyswyd y Bwrdd bod y ddau fis diwethaf wedi bod yn brysur ar draws y busnes cyfan gyda ffocws parhaus ar gynllunio strategol ar gyfer y dyfodol, datblygu a darparu cynlluniau, a symud ymlaen i wella gwasanaethau rheilffyrdd o ddydd i ddydd. Bu ffocws sylweddol hefyd ar ddefnyddio'r model gweithredu newydd a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar sefyllfa cyllid Llinellau Craidd y Cymoedd.

[redacted]

Cafodd y Bwrdd wybod bod gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu rôl TrC yn yr agenda bysiau, yn enwedig o ran gosod a rhedeg rhwydwaith masnachfraint. Byddwn yn gofyn am eglurder mewn cyfarfodydd sydd ar y gweill, gan gynnwys Bwrdd Llywio TrC.

[redacted]

[redacted]

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am syniad a drafodwyd yn flaenorol o ddatblygu opsiynau capasiti amgen drwy wasanaethau bysiau o ansawdd uchel i deithwyr nad ydynt yn gallu defnyddio gwasanaethau rheilffyrdd oherwydd niferoedd uchel o deithwyr. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu yn y maes hwn gyda chynllun peilot ar y gweill ar gyfer mis Medi a mis Tachwedd.

Mae allbwn dylunio Llinellau Craidd y Cymoedd yn dal i fod yn weddol sefydlog ar lefel allbwn llawer uwch. [redacted] Mae cynnydd da wedi bod ar adeiladu Llinellau Craidd y Cymoedd gyda'r allbynnau'n dangos cynhyrchiant da. Trafododd y Bwrdd fynediad i wasanaethau ac integreiddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Cytunwyd y bydd Dan Tipper yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod yn y dyfodol ac y byddai gofyn i Tony Mercado ymuno â'r sesiwn [**Cam Gweithredu Jeremy Morgan**].

Mae rhagor o drafodaethau wedi cael eu cynnal ynghylch Teithio Llesol gyda Llywodraeth Cymru, TrC a Sustrans. Hysbyswyd y Bwrdd y bydd yr uchelgeisiau'n gofyn am ddull gweithredu aml-bartner. Dyma gasgliadau allweddol y trafodaethau: (a) mae angen blaenoriaethu prosiectau'n well byth; (b) mae angen cynllun cliriach ar gyfer annog rhai awdurdodau lleol i wella yn hynny o beth; (c) mae angen gwelliant sylweddol yn swmp y gwerthuso ac ansawdd hynny; a (d) mae angen rhyw fath o adnodd canolog i yrru hyn.

[redacted]

Trafododd y Bwrdd y cyfnod diweddar o dywydd poeth a chadernid cerbydau a seilwaith. Cytunwyd bod angen cynllunio cadernid yn y tymor hir.

**3b. Cyllid a llywodraethu**

Cafodd y Bwrdd wybodaeth am weithgareddau cyllid a llywodraethu allweddol dros y mis diwethaf, gan gynnwys trafodaethau am y bwlch cyllid gyda Llywodraeth Cymru, rhagolwg Ch2 Rheilffyrdd TrC, cerbydau, rhaglen Llinellau Craidd y Cymoedd ac adolygiad o ddirprwyaethau TrC.

Trafododd y Bwrdd yr angen i sicrhau bod gwariant teithio llesol yn cael ei fonitro'n ofalus, gyda llai na hanner yn cael ei wario hyd yma yn y flwyddyn ariannol bresennol. Cytunwyd y byddai James Price, Heather Clash, Geoff Ogden a Dan Tipper yn trafod [**Cam Gweithredu Jeremy Morgan**].

[redacted]

[redacted]

Mae lansiad ac ymgynghoriad y cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ar y gweill, gyda'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 7 Hydref. Bydd staff yn gallu gwneud dewis personol ynghylch newid darparwr. Mae Pwyllgor Pensiynau'n cael ei sefydlu i oruchwylio'r holl faterion sy'n ymwneud â phensiynau.

Nododd y Bwrdd y Cyfrifon Rheoli ar gyfer mis Awst 2022-23.

Gadawodd Natalie Feeley y cyfarfod.

**5. Is-bwyllgorau**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod diweddar yr is-bwyllgor Cwsmeriaid a Masnachol. Roedd ystyriaeth y Pwyllgor yn cynnwys delio â chwynion, ymgyrch hysbysebu'r Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn, ac ap TrC.

Roedd cyfarfod diweddar y Pwyllgor Prosiectau Mawr wedi trafod nifer o raglenni a phrosiectau parhaus, gan gynnwys trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, rôl TrC yn y prosiect GCRE, a cherbydau. Cytunwyd y byddai diweddariad ar gerbydau yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod Bwrdd TrC fis Hydref [**Cam Gweithredu Alexia Course**].

Roedd y Pwyllgor Archwilio a Risg diweddar yn canolbwyntio ar nifer o adroddiadau archwilio mewnol a Chenedlaethau'r Dyfodol.

**6. Is-fyrddau**

Roedd cyfarfod Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf fis Medi yn canolbwyntio ar opsiynau amserlen, estyniadau a gwasanaethau newydd.

**6. Y Bwrdd Llywio**

Roedd cyfarfod diweddar Bwrdd Llywio TrC wedi trafod gorlenwi trenau, gwariant Llinellau Craidd y Cymoedd, diffyg yn y gyllideb, cytundeb strategol Stadler, prisiau yn y dyfodol, adroddiad blynyddol TrC, cyflogau a'r Model Gweithredu Targed newydd.

**7. Cyfrinachol**

[redacted]

**<u>Rhan B – Sesiwn diweddariad gweithredol</u>**

Ymunodd Dan Tipper â'r cyfarfod.

**8. Yr wybodaeth ddiweddaraf o ran Datblygu Cynaliadwy**

Ymunodd Natalie Rees â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses ymgynghori ar gyfer cyrff cyhoeddus newydd a fydd yn ddarostyngedig i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, gan gynnwys TrC. Atgoffwyd y Bwrdd bod TrC eisoes wedi bod yn gweithio fel pe bai'n gorff a enwir o dan y Ddeddf bresennol. Cadarnhawyd na fydd angen i TrC fod yn bresennol ym mhob un o'r 18 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, dim ond mynd pan fydd amcanion TrC yn cyd-fynd â'r pynciau sy'n cael eu hystyried. Bydd angen i TrC hefyd ddangos tystiolaeth o sut y bydd penderfyniadau a wneir o ran effeithiau tymor hir yn amodol ar archwiliadau datblygu cynaliadwy gan Archwilydd Cyffredinol Cymru; ond bydd hefyd yn cael rhagor o gefnogaeth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru.

Croesawodd y Bwrdd y gwaith a wnaed hyd yma ond roedd yn cytuno bod angen gwella'r broses o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn ogystal â chynllunio tymor hir.

Cytunodd y Bwrdd i wahodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol pan fydd yn dechrau yn y swydd.

Gadawodd Sarah Howells y cyfarfod. Ymunodd Vernon Everitt â'r cyfarfod.

**9. Ffeibr Llinellau Craidd y Cymoedd**

[redacted]

[redacted]

Gadawodd Owain Taylor-Shaw y cyfarfod. Ailymunodd Sarah Howells â'r cyfarfod ac ymunodd Geoff Ogden â'r cyfarfod.

**10. Diweddariad am Linellau Craidd y Cymoedd**

[redacted]

Mae perfformiad y dyluniad yn parhau i fod ar lefel uchel, er bod y perfformiad ym mis Awst ychydig yn is na'r disgwyl. Mae eitemau llwybr critigol wedi cael eu nodi a'u lliniaru lle bo angen, gyda'r elfennau i'w cyflawni wedi'u hailgynllunio i gyflawni'r rhaglen ofynnol. Mae'r perfformiad adeiladu yn parhau ar y gofynion a gynlluniwyd neu o'u cwmpas.

Mae dyddiadau comisiynu ar gyfer ailbroffilio Signalau Rheilffyrdd Treherbert, Aberdâr a Merthyr (TAM) ac Offer Llinellau Uwchben (OLE) wedi cael eu cyflawni. Mae'r dyddiadau ailbroffilio wedi cael eu diffinio a'u hintegreiddio gyda'r rhaglen gomisiynu Cerbydau i gadw at yr amserlenni ar gyfer cymeradwyo cerbydau. Mae'r gwaith o ddiwygio'r proffil hyfforddi gyrwyr yn parhau i gynnal amserlenni cyflwyno'r fflyd.

Gofynnodd y Bwrdd am yr wybodaeth ddiweddaraf am ymuno â gwasanaeth ac integreiddio Mynediad i Wasanaeth Llinellau Craidd y Cymoedd. Cytunwyd i ofyn i Dan Tipper ddarparu diweddariad yng nghyfarfod mis Tachwedd a gofyn i Tony Mercado fod yn bresennol.

**11. Prosiectau seilwaith - yr wybodaeth ddiweddaraf am y chwe mis nesaf**

Nododd y Bwrdd broffil y prosiectau seilwaith am y chwe mis nesaf.

Gadawodd Dan Tipper y cyfarfod.

**12. Datgarboneiddio bysiau**

Ymunodd Lee Robinson a Jo Scott â'r cyfarfod. Nododd y Bwrdd y diweddariad ar gynlluniau ar gyfer datgarboneiddio bysiau a chytunodd i'w gyflwyno yn y Bwrdd Llywio. Atgoffwyd y Bwrdd o darged Llywodraeth Cymru, cylch gwaith

TrC, statws presennol y gwaith a rhai o’r rhwystrau posibl i weithredu gan gynnwys fforddiadwyedd a datblygu technoleg.

**13. Masnachfreintio bysiau**

Ymunodd Jo Scott â’r cyfarfod. Nododd y Bwrdd y diweddariad a chytunodd i gynnwys y papur gael ei gyflwyno ym Mwrdd Llywio nesaf TrC. Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf a thrafod amcanion polisi Llywodraeth Cymru; cylch gwaith tebygol TrC, cysoni â’r model gweithredu newydd a rolau a chyfrifoldebau mewnol TrC; rolau a chyfrifoldebau allanol gan gynnwys cyllid, datblygu rhwydwaith, rheoli perfformiad a chyswllt, adolygu rhwydwaith, seilwaith; a risgiau a chyfleoedd.

Gadawodd Lee Robinson a Jo Scott y cyfarfod.

**14. Cyfathrebu**

Ymunodd Lewis Brencher â’r cyfarfod. Mae’r cyfnod wedi parhau i gael ei ddominyddu gan ffactorau y tu allan i ddylanwad uniongyrchol TrC, gyda gweithredu diwydiannol, ac yn fwy diweddar gweithgarwch dylanwadol *Operation London Bridge*. Mae’r gwerthusiad cychwynnol o'r ‘Rhwydwaith Cymdeithasol Go Iawn’ yn tynnu sylw at effaith gadarnhaol yr ymgyrch, gyda’r gwerthusiad cychwynnol yn rhoi cipolwg rhagorol a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu’r camau nesaf, ar ôl i’r ail gam ddod i ben. Mae sianeli digidol yn parhau i berfformio’n gadarnhaol iawn, gyda pherfformiad gwefannau a’r cysylltiadau CRM a gyflawnwyd yn gwneud yn well nag erioed.

Mae rhagor o weithgarwch ymgysylltu mewnol ac allanol ‘yn bersonol’ wedi’i gynllunio ar gyfer y misoedd nesaf, gan adeiladu ar lwyddiant rhai o’n fformatau newydd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a’r gymuned. Mae hyn yn gysylltiedig â’r cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid strategol newydd sy’n ceisio dylanwadu ar gyflenwyr allweddol, cyllidwyr a phartneriaid yn y diwydiant. Mae ein cynllun newid ymddygiad yn parhau gyda chyfraniadau gan dimau ar draws TrC, a chyda chymorth a chyngor gan arbenigwyr gwyddor ymddygiad. Mae’r gwaith yn y maes hwn eisoes ar y gweill ond bydd yn cynyddu dros y misoedd nesaf ochr yn ochr â’r gwaith sy’n cael ei wneud drwy raglenni fel Comisiwn Burns.

Gadawodd Lewis Brencher y cyfarfod.

**15. Cofrestr risg**

Ymunodd Leyton Powell â’r cyfarfod.

Nodwyd yr Adroddiad Risg.

Daeth y Cadeirydd â’r cyfarfod i ben a diolchodd i bawb am eu cyfraniadau.